

## Sefydlu Fforwm ar gyfer Chynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu ag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

### Gweithdy Ymgysylltu a Chynnwys y Cyhoedd: Crynodeb o'r Drafodaeth

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r drafodaeth o'r Gweithdy Ymgysylltu a Chynnwys Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2021.

Roedd y gweithdy'n gyfle i'r mynychwyr glywed am [Gynllun Gweithredu 'Canfod eich Rôl mewn Ymchwil Iechyd a Gofal'](#) sydd ar gael ar [wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru](#).

Roedd y gweithdy hefyd yn ymdrin â thrafodaethau ar sefydliad arfaethedig Fforwm Ymgysylltu a Chynnwys y Cyhoedd ar gyfer ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol, gan fynd i'r afael â maes ffocws 1 y Cynllun Gweithredu. Rhannwyd pecyn briffio a oedd yn rhoi amlinelliad o gynnig y Fforwm i'r holl fynychwyr, ac mae ar gael i'w weld ar [wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru](#).

#### Prif Grynodeb

Y prif bwyntiau sy'n deillio o'r trafodaethau yn y gweithdy yw:

1. Mae cefnogaeth gref i'r syniad o Fforwm Ymgysylltu a Chynnwys y Cyhoedd. Dylai'r model arfaethedig fod yn addas, a gwnaed digon o awgrymiadau ar sut i drefnu a rhedeg y digwyddiadau hyn yn effeithiol.
2. Mae sawl cynulleidfa bosibl y mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ceisio ymgysylltu â nhw, ac mae angen gwaith pellach i ddiffinio cwmpas y Fforwm wrth gyfrannu at ymgysylltu ag ymchwil ochr yn ochr â dulliau eraill.
3. Bydd yn bwysig sicrhau bod y Fforwm yn ychwanegu gwerth a dod ag ymgysylltu ag ymchwil 'yn fyw' yn hytrach na wynebu'r risg y bydd yn dod yn 'siop siarad' gyda llawer o drafod ond ychydig o weithredu. Amlinellodd y mynychwyr sawl

thema a ystyriwyd yn bwysig i gadw'r cynnwys yn ddiddorol a chanolbwyntio ar weithredu.

4. Mae llawer o ddiddordeb gan lawer o rannau o'r gymuned ymchwil i fod yn rhan o'r gweithgorau, a all ganolbwyntio ar ddatblygu darnau manwl o waith i fynd i'r afael â phynciau blaenoriaeth.
5. Gwneir ymarfer pellach i nodi blaenoriaethau i geisio cyfraniadau gan y rhai na allodd fynychu'r gweithdy. Ymhlith y blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg o'r gweithdy mae:
  - Datblygu cynllun ymgysylltu ystyrion sy'n mynd i'r afael â'r angen am fwy o amrywiaeth a chynhwysiant
  - Mynd i'r afael â rhwystrau gweinyddol i gynnwys y cyhoedd
  - Rhannu straeon cyfranogi a gweithgareddau eraill i ddangos effaith

## **Y cysyniad o Fforwm**

Roedd cefnogaeth gref i sefydlu Fforwm Ymgysylltu a Chynnwys y Cyhoedd. Fodd bynnag, nododd llawer o fynychwyr hefyd mai'r risg fwyaf i sefydlu'r Fforwm fyddai ei fod yn dod yn 'siop siarad' heb fawr o gynnydd ymlaen na chymau gweithredu diriaethol.

Tynnodd y mynychwyr sylw hefyd at y ffaith y dylai'r fforwm ychwanegu gwerth at y grwpiau cyfranogiad cyhoeddus presennol trwy eu rhwydweithio gyda'i gilydd, nid disodli grwpiau neu fentrau sy'n bodoli eisoes, ac roedd awgrym y dylid sefydlu Grŵp Arweinwyr Cynnwys y Cyhoedd hefyd.

Anogodd rhai mynychwyr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i ystyried dull cydgynhyrchu wrth ddatblygu'r maes gwaith hwn yn y dyfodol.

## **Cwmpas, cynnwys a chynulleidfa'r Fforwm**

Er bod cefnogaeth i'r cysyniad o Fforwm, amlygodd sawl mynychwr yr angen i gael pwrpas cliriach, neu gwmpas mwy diffiniedig, ar gyfer y digwyddiadau. Mae nifer o gynulleidfaoedd y dylid eu hystyried yn y gwaith ymgysylltu a chynnwys, ond bydd ganddynt lefelau amrywiol o wybodaeth gychwynnol, diddordeb a chymhellion i ymgysylltu.

Yn fras, y cynulleidfaoedd a drafodwyd gan y mynychwyr oedd:

- Y cyhoedd yn gyffredinol (gan dybio bod gwybodaeth/ diddordeb cychwynnol mewn ymchwil yn isel iawn yn y grŵp hwn)
- Y cyhoedd 'gwybodus' (y rhai sydd eisoes yn ymwybodol a/neu'n ymwneud ag ymchwil yng Nghymru i ryw raddau)

- Arweinwyr Cynnwys y Cyhoedd ac ymchwilwyr sy'n cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau cynnwys y cyhoedd
- Ymchwilwyr nad ydynt yn gwneud fawr ddim o ran cyfranogiad cyhoeddus ar hyn o bryd
- Gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal

Mae angen i arweinwyr Cynnwys y Cyhoedd ac ymchwilwyr sy'n weithredol gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru fod yn gliriach pa gynulleidfaoedd y mae'r Fforwm yn y sefyllfa orau i'w gwasanaethu, a sut mae hyn yn cyd-fynd â gwaith arall a allai fod yn fwy addas ar gyfer ymgysylltu â chynulleidfaoedd penodol eraill. Er enghraifft, roedd consensws y dylai cynllun ymgysylltu pwrpasol (Maes Ffocws 3 yn y Cynllun Gweithredu) fod yn flaenoriaeth ac efallai mai dyma'r dull mwyaf addas o ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol.

Waeth beth fo'r dull a ddefnyddir, roedd cefnogaeth gref gan fynychwyr y dylai gweithgaredd ymgysylltu a chynnwys fod yn agored i set amrywiol o safbwyntiau a phrofiad, ac i sicrhau bod modelau gweithio a chyfleoedd yn gynhwysol. Awgrymwyd bod angen gwneud rhagor o waith, ac efallai mai adeiladu ymddiriedaeth trwy ymgysylltu ar lawr gwlad a lefel gymunedol fyddai'r dull mwyaf addas i ddechrau mynd i'r afael â hyn.

Gwnaeth mynychwyr sawl awgrym ar gynnwys digwyddiadau'r fforwm (yn amodol ar ddiffinio cwmpas cliriach), gan gynnwys:

- Diweddariadau gan weithgorau ar gynnydd sy'n mynd i'r afael â materion allweddol
- Cyfleoedd i broffilio gweithgareddau cyfranogiad cyhoeddus cadarnhaol, i ddathlu'r cyflawniadau a rhannu gwybodaeth am sut y cyflawnwyd pethau
- Dysgu am ddatblygiadau newydd ar lefel leol, genedlaethol a'r DU sy'n gysylltiedig â chynnwys y cyhoedd, a chyfle i drafod y goblygiadau i Gymru. Er enghraifft: soniwyd am dryloywder ymchwil; blaenoriaethu ymchwil; amrywiaeth a chynhwysiant; dysgu o ymateb ymchwil pandemig COVID-19; gweithio'n rhithiol a her allgáu digidol, i gyd fel pynciau o ddiddordeb.
- Clywed gan wahanol leisiau, gan gynnwys cyfranwyr cyhoeddus ac ymchwilwyr, am eu profiadau o gynnwys y cyhoedd, gyda'r nod o ddiffinio cyfranogiad ymchwil ac annog eraill.

## **Logisteg y Fforwm**

Roedd cefnogaeth gyffredinol gan fynychwyr i'r syniad o dri digwyddiad Fforwm y flwyddyn, ac ystyriwyd ei fod yn cynnig cydbwysedd da o ran darparu digon o fomentwm ac ymgysylltu parhaus, heb lethu pobl.

Ystyriwyd bod y dull aelodaeth agored yn gam cadarnhaol, gan alluogi unigolion newydd i gymryd rhan, ond roedd angen iddynt fod yn glir ynghylch pwrpas y Fforwm i sicrhau bod pobl yn deall beth i'w ddisgwyl.

Roedd sicrhau nad yw pobl yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan oherwydd y dulliau neu'r offer a ddefnyddiwn i redeg y Fforwm yn thema a gododd dro ar ôl tro yn nhrafodaeth y gweithdy. Roedd y mynychwyr yn ffafrio dull cymysg, gyda digwyddiadau rhithwir ac wyneb yn wyneb (pan oedd hynny'n bosibl). Mae angen gwaith pellach i sicrhau y gall cyfarfodydd rhithwir gefnogi'r rhai na fydd efallai'n gallu cyrchu neu ddefnyddio offer digidol i gymryd rhan. Yn yr un modd, pan fydd digwyddiadau wyneb yn wyneb yn bosibl, mae angen iddynt fod yn hygyrch a chyllideb ar gael i dalu costau priodol.

Cytunwyd hefyd nad oes angen cynnal y digwyddiadau y tu mewn i oriau busnes arferol, ac y gallent fod yn fodiwlaidd - yn cael eu lledaenu ar draws nifer o ddyddiau yn hytrach nag un diwrnod ar ffurf cynhadledd. Awgrymodd sawl mynychwr hefyd y byddai'n bwysig cefnogi model lle gall pobl gyfrannu heb orfod bod mewn digwyddiad 'byw', a bod cyfle i ymgysylltu â chyfoedion y tu allan i'r digwyddiadau a rhwng digwyddiadau trwy offer a llwyfannau wedi'u cymedroli'n briodol.

Argymhellodd nifer o fynychwyr fod angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r agenda ar gyfer digwyddiadau'r Fforwm arfaethedig ymhell cyn y digwyddiad, ac efallai y bydd angen dogfen moesau/ymddygiad i sicrhau ei fod yn brofiad diogel a chadarnhaol i'r rhai sy'n cymryd rhan.

## **Gweithgorau'r Fforwm**

Nododd nifer o fynychwyr y byddent yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgorau penodol ar bynciau a oedd o ddiddordeb iddynt.

Er bod y mynychwyr yn credu bod cyd-arweinyddiaeth y gweithgorau yn agwedd gadarnhaol ar y model, ystyriwyd bod cefnogaeth a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r gweithgorau yn bwysig i roi 'pwysau' i'r trafodaethau.

Roedd cefnogaeth i redeg gweithgorau ar fwy nag un flaenoriaeth ochr yn ochr, er bod rhai mynychwyr hefyd yn pwysleisio y bydd yn bwysig peidio â cheisio gwneud gormod ar unwaith, a byddai'n well canolbwyntio ar wneud ychydig o bethau'n dda, gyda chefnogaeth effeithiol, a chymhwyso'r hyn a ddysgir i weithgorau yn y dyfodol.

Mae angen i'r Gweithgorau gael tasg a chwmpas clir a chytunedig o'r cychwyn cyntaf. Cafwyd awgrym hefyd y gallai pob gweithgor gael yr un cylch gorchwyl templed, i hyrwyddo cysondeb gweithio ac i bobl wybod beth sy'n ddisgwyliedig, gyda dim ond y dasg a'r amserlen yn benodol ar gyfer pob gweithgor.

Yn seiliedig ar drafodaethau yn y gweithdy, gallwn fod â hyder i sefydlu rhai gweithgorau allweddol cyn digwyddiad cyntaf y Fforwm - i gychwyn canolbwyntio ar y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â materion allweddol.

## **Testunau blaenoriaeth**

Wrth ystyried y materion blaenoriaeth, cyffyrddodd yr adborth gan fynychwyr â phwysigrwydd yr holl feysydd ffocws arfaethedig yn y Cynllun Gweithredu. Codwyd rhai gweithgareddau yn gyson fel blaenoriaethau ar draws grwpiau ystafell ymneilltuo lluosog, gan gynnwys:

- Datblygu strategaeth ymgysylltu ag ymchwil bwrpasol (maes ffocws 3 y Cynllun Gweithredu)
- Mynd i'r afael â rhwystrau gweinyddol i gynnwys y cyhoedd (maes ffocws 5 y Cynllun Gweithredu)
- Darparu hyfforddiant a chefnogaeth effeithiol i ymchwilwyr i'w galluogi i gynnwys y cyhoedd yn dda (maes ffocws 6 y Cynllun Gweithredu)
- Yr angen am astudiaethau achos a straeon i ddod ag effaith cyfranogiad y cyhoedd 'yn fyw' (maes ffocws 7 y Cynllun Gweithredu)

Roedd yr angen am gyfranogiad cynrychioliadol ac amrywiol yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro trwy gydol y gweithdy. Nid oes un cam gweithredu unigol i fynd i'r afael â hyn, ond mae angen iddi fod yn agwedd allweddol ar yr holl waith a gweithgareddau arfaethedig.

## **Materion eraill**

Cododd ychydig o fynychwyr gwestiynau nad ydynt yn cael sylw penodol yn y crynodeb o drafodaeth, a nodir y rhain yma.

### **Cwestiwn: A fydd digwyddiadau'r Fforwm ar agor i'r rhai y tu allan i Gymru?**

**Ateb:** Bydd cwmpas digwyddiadau'r fforwm yn ymwneud ag ymgysylltu ag ymchwil a chynnwys yng Nghymru. Fodd bynnag, ni fyddem yn gwahardd y rhai o'r tu allan i Gymru a allai fod eisiau clywed am yr holl bethau gwych sy'n digwydd yma! Disgwylir y byddwn yn gwahodd cydweithwyr o'r DU a Rhyngwladol i ymuno â rhai digwyddiadau Fforwm, i'n diweddarau ar eu datblygiadau neu ddysg, a chychwyn trafodaethau am y goblygiadau a'r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu a chynnwys yng Nghymru.

### **Cwestiwn: Sut fydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei werthuso?**

**Ateb:** Mae llawer o'r gweithgareddau a gynigir yn y cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar ddylanwadu ar newid i systemau a diwylliant ymchwil. Er y bydd rhai gweithgareddau'n cael eu gwerthuso ar sail a yw'r canlyniad a nodwyd wedi'i gyflawni, rhaid i lwyddiant y cynllun gweithredu hefyd ystyried a yw'r broses yn fwy

cyfranogol a safbwyntiau'r gymuned ynghylch a yw cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd hyn angen cipio data ansoddol yn ogystal â data meintiol, ac mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn awyddus i gydweithredu ymhellach â'r gymuned ymchwil i gytuno ar fesurau llwyddiant a'r dulliau mwyaf addas.

### **Y camau nesaf**

1. Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru nawr yn canolbwyntio ar fireinio cysyniad y Fforwm i ystyried yr adborth a gafwyd yn y gweithdy.
2. Bydd arolwg yn cael ei lansio ym mis Mawrth 2021 i ganiatáu i'r rhai a fynychodd y gweithdy a'r rhai na allodd wneud hynny i fyfyrion ar y blaenoriaethau a ddylai fod yn ganolbwynt sylw ar unwaith.
3. Disgwyliwn gyhoeddi'r dyddiad ar gyfer digwyddiad cyntaf y Fforwm yn ystod yr wythnosau nesaf, ac amlinellu'r agenda yn seiliedig ar awgrymiadau o'r gweithdy.
4. Gall unigolion barhau i rannu eu barn ar y materion allweddol ar gyfer ymgysylltu ag ymchwil ac ymwneud â'r tîm trwy [Research-involvement@wales.nhs.uk](mailto:Research-involvement@wales.nhs.uk)